## Cyflwyniad

Fel trefnydd digwyddiad rydych yn gyfrifol am iechyd, diogelwch a lles pobl sy'n dod i'ch digwyddiad, yn ogystal â'r gweithwyr, contractwyr ac is-gontractwyr sy'n gweithio yn y digwyddiad. Sefydlwyd Grŵp Cynghori Diogelwch Digwyddiadau Blaenau Gwent i roi cefnogaeth a chyngor i drefnwyr pob math o ddigwyddiad cyhoeddus, i helpu i sicrhau bod y digwyddiad yn un diogel a hwyliog.

Mae'r grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Heddlu, y Gwasanaeth Tân, Ambiwlans a'r Awdurdod Lleol (gan gynnwys Iechyd yr Amgylchedd, Trwyddedu, Priffyrdd, rheoli adeiladu, iechyd a diogelwch ac Argyfyngau Sifil). Rôl y grŵp yw rhoi cyfarwyddyd a chyngor. Bydd yr holl atebolrwydd a chyfrifoldeb gyda threfnydd y digwyddiad. Os bydd gennych unrhyw amheuaeth am eich cyfrifoldebau cyfreithiol neu atebolrwydd posibl dylech gael cyngor cyfreithiol.

Gallwch gysylltu â'r grŵp trwy e-bost yn Emergency.Planning@blaenau-gwent.gov.uk. Fel arall, gallwch ffonio Steph Summers ar 01495 355081 neu anfon e-bost ati yn Steph.Summers@blaenau-gwent.gov.uk.

Yn gyntaf, gallwch lenwi'r ffurflen digwyddiad i'r Grŵp Cynghori Diogelwch Digwyddiadau. (Gweler tudalen 33)
Os byddwch yn cyflwyno ffurflen digwyddiad, bydd hyn yn cael ei drafod gan y grŵp. Fel arfer byddwn yn cofnodi eich cynlluniau a phan fydd angen hynny yn gofyn am ragor o wybodaeth. Efallai y byddwch yn cael eich gwahodd i gyfarfod y grŵp i drafod cynllun eich digwyddiad yn fwy manwl.

Dylech roi cymaint o rybudd â phosibl i'r Grŵp Cynghori Diogelwch, ond dylech roi o leiaf 12 wythnos cyn y digwyddiad. Cynhelir ein cyfarfodydd yn fisol ond mae'r aelodau ar gael i drafod cynlluniau tu allan i'r amseroedd hyn. Gellir gweld manylion cyswllt ar ddiwedd y ddogfen hon.

Bwriad y wybodaeth sydd yn y llyfryn hwn yw cynorthwyo i gynllunio ystod eang o ddigwyddiadau yn ddiogel. Mae'n debyg y bydd angen cyfarwyddyd ychwanegol ar gyfer digwyddiadau arbenigol a gweithgareddau ar raddfa fawr. Nid yw'n hollgynhwysol, ac ni ddylid ei ddefnyddio yn lle'r dogfennau cyfarwyddyd technegol sy'n bodoli, ond dylid ei ddarllen ar y cyd â nhw. Cynhwysir rhestrau gwirio diogelwch a ddylai eich arwain i'r cyfeiriad cywir.

Dymunwn yn dda i chi gyda'ch digwyddiad, ac edrychwn ymlaen at gael clywed gennych.

# Cynnwys


Ble dylwn i ddechrau? ....4
Sefydlu Pwyllgor ....4
Trwyddedu ....5
Yswiriant ....6
Asesiad Risg ....7
Cynllun Gwagu ac Argyfwng ....7
Darpariaeth Lles a Glanweithiol ....7
Arlwyo ....7
Plismona ....7
Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru ....8
Cymorth Cyntaf a Darpariaeth Feddygol ....9
Cynllun Safle ....9
Strwythurau Dros Dro ....9
Rheoli Tyrfa ....9
Stiwardiaid.. ....10
Diogelwch. ....10
Sŵn....10
Rheoli Traffig ....10
Cludiant.. ....11
Cynlluniau Wrth Gefn ....11
Gwybodaeth ac Arwyddion ....11
Clirio'r safle ....11
Trafod ....11
Cynllun y Digwyddiad ....12
Diogelwch y Digwyddiad ....12
Digwyddiadau ar y Briffordd ....12
Beth i'w wneud os aiff pethau o chwith ....13
Darllen pellach ....13

ATODIADAU

A - Manylion Cyswllt Defnyddiol ..6(...)5.6(..)5.6(...)5.6(..)5.6(...)....

## Trwyddedu

## Alcohol ac adloniant

Os ydych yn trefnu digwyddiad, sy'n cynnwys un neu fwy o'r gweithgareddau canlynol, mae'n debyg y bydd arnoch angen Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro (TEN):-

- Gwerthu alcohol trwy fanwerthu
- Cyflenwi alcohol gan neu ar ran clwb i, neu yn ôl archeb, aelod o'r clwb
- Darparu lluniaeth yn hwyr y nos (bwyd poeth/diod rhwng 11pm a 5am)
- Darparu adloniant wedi ei reoleiddio (dramâu, ffilmiau, cerddoriaeth fyw neu wedi ei recordio, dawns ac ati)

Gall TEN awdurdodi gweithgareddau sydd angen trwydded yn unrhyw safle, a all gynnwys mannau agored a strwythurau dros dro yn ogystal ag adeiladau neu rannau o adeiladau.

Gall unigolyn sydd â thrwydded bersonol gyflwyno 50 TEN y flwyddyn galendr (gan gynnwys 5 TEN hwyr) a gall unigolyn nad oes ganddo drwydded bersonol gyflwyno 5 TEN y flwyddyn galendr (gan gynnwys 2 TEN hwyr). Dim ond 12 TEN a ganiateir i safle penodol mewn blwyddyn galendr. Ni all unrhyw TEN barhau am fwy na 168 awr ac ni all uchafswm hyd TEN gwahanol y flwyddyn galendr fod yn fwy na 21 diwrnod. Ni all uchafswm y nifer o bobl, gan gynnwys perfformwyr, ym mhob TEN fod yn fwy na 499.

Mae ffi o £21 yn daladwy i'r Cyngor am bob TEN. Rhaid i'r TEN a'r ffi gael eu cyflwyno i'r Cyngor a rhaid i gopi o'r hysbysiad gael ei roi i'r Heddlu ac Iechyd yr Amgylchedd, di

Am ragor o wybodaeth am unrhyw un o'r materion uchod, cysylltwch â'r Tîm Trwyddedu ar 01495 355961. Fel arall gallwch anfon e-bost at licensing@bleanau-gwent.gov.uk. Mae'r holl ffurflenni cais perthnasol ar gael ar wefan y Cyngor yn www.blaenau-gwent.gov.uk

## Yswiriant

Os ydych yn trefnu digwyddiad mae'n ddoeth cael yswiriant. Bydd y graddau y bydd arnoch ei angen yn dibynnu ar faint a natur y digwyddiad. Os ydych yn cyflogi staff yn eich digwyddiad, bydd yn ofynnol i chi gael yswiriant atebolrwydd cyflogwr. Os ydych yn trefnu digwyddiad cyhoeddus bydd arnoch angen yswiriant atebolrwydd cyhoeddus. Bydd angen i chi sicrhau bod y polisi yn ddigonol ar gyfer y math o ddigwyddiad sy'n cael ei gynllunio. Ar gyfer digwyddiadau mawr argymhellir isafswm o £5 miliwn o yswiriant. Mae hefyd yn ddoeth yswirio rhag gorfod canslo a thywydd gwael.
Os ydych yn cyflogi contractwyr allanol bydd arnoch angen gwirio eu hyswiriant hwythau hefyd. Bydd arnoch angen hefyd wirio datganiadau iechyd a diogelwch unrhyw gontractwr (yn ôl y gyfraith rhaid iddynt fod ag un os ydynt yn cyflogi mwy na phump o bobl), eu hasesiadau risg a'u systemau gwaith a'u datganiadau dull. Os oes gennych unrhyw ymholiadau cysylltwch â'r uned yswiriant ar 01495 355151

## Asesiad Risg

Dylai cynnal asesiad risg manwl fynd yn bell iawn i sicrhau iechyd a diogelwch pawb sy'n bresennol. Dylid canfod yr holl beryglon sy'n gysylltiedig â'r digwyddiad, asesu lefel y risg a dylid cymryd camau addas i leihau'r risg yma i lefel dderbyniol. Os oes pump neu fwy o weithwyr, yna mae gofyn cyfreithiol am asesiad risg ysgrifenedig. Dylai unrhyw gontractwyr sy'n ymwneud â'r digwyddiad hefyd gynnal asesiadau risg. Pan fydd yn berthnasol, dylech gael copïau o'r rhain. Mae ffurflen enghreifftiol a rhagor o wybodaeth am asesiadau risg yn nes ymlaen yn y ddogfen hon. Gellir cael rhagor o wybodaeth am asesiadau risg gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) yn www.hse.gov.uk

## Cynllun Gwagu ac Argyfwng

Bob amser pan fydd tyrfa yn ymgasglu mewn lle cyfyngedig, naill ai dan do neu yn yr awyr

Mae’r cyhoeddiad ‘Asesiadau Risg Diogelwch Tân' (PDF, 42KB) yn rhoi cyfarwyddyd ar ddull pum cam syml o asesu risg tân.
Mae’r Canllaw ‘Digwyddiadau a Lleoliadau Awyr Agored’ yn rhoi gwybodaeth ychwanegol i’r ‘unigolyn cyfrifol’ gyda gwybodaeth ychwanegol am sut i gydymffurfio â chyfraith diogelwch tân, llenwi’r asesiad risg tân a’r rhagofalon tân cyffredinol sydd angen eu trefnu.

Mae’n debyg y bydd angen i ddigwyddiadau mwy cymhleth gael eu hasesu gan unigolyn gyda hyfforddiant cynhwysfawr neu brofiad o asesu risg tân. Gellir defnyddio’r canllaw hefyd i ymdrin â diogelwch tân mewn ardaloedd penodol fel pabelli mawr.

## Cymorth Cyntaf a Darpariaeth Feddygol

Dylai trefnydd y digwyddiad gynnal asesiad risg meddygol, gan ystyried pethau fel gweithgareddau, y niferoedd, y mathau a’r grwpiau oedran o bobl fydd yno, mynedfeydd ac allanfeydd a’r safle a’r strwythurau. Os nad ydych yn siŵr am ddarparu digon o niferoedd a mathau o adnoddau (e.e. cymorth cyntaf, ambiwlansiau, parafeddygon ac ati), mae gan y Grŵp Cynghori Diogelwch dempled asesu risg meddygol ar gael os gofynnir amdano. Y disgwyliadau fan lleiaf fyddai 2 weithiwr cymorth cyntaf i’r mil cyntaf ac yna un ar gyfer pob mil ar ôl hynny.
Ni ddylai gweithredwyr cymorth cyntaf gael swyddi eraill i’w gwneud hefyd, er enghraifft stiwardio neu ddiogelwch er nad yw hynny’n atal stiwardiaid neu weithwyr diogelwch rhag cael eu hyfforddi i roi cymorth cyntaf. Rhaid i weithredwyr cymorth cyntaf gael yr offer i wneud y gwaith a chael mynediad i leoliad lle gallant weithio. Ystyriwch gyfrinachedd ac urddas y cleifion.
Efallai y byddwch am gysylltu â chorff cydnabyddedig sy’n darparu gwasanaethau o’r fath, fel Ambiwlans Sant Ioan neu’r Groes Goch Brydeinig. Rhaid i chi sicrhau bod y sefydliad yr ydych yn ei ddewis yn gymwys, wedi ei hyfforddi’n dda ac yn gallu bodloni gofynion y digwyddiad. Ni ddylai darpariaeth feddygol ar gyfer y digwyddiad ddibynnu ar y ddarpariaeth arferol a wneir gan y Gwasanaeth Ambiwlans GIG i’w ddefnyddio gan y cyhoedd yn gyffredinol (h.y. y system “999”). Gellir cael cyngor pellach gan Wasanaeth Ambiwlans Cymru.
Petai angen i ambiwlans ddod i roi sylw i alwad 999 yn y digwyddiad dylid rhoi gwybodaeth glir am fynedfa a dylid cael cynllun clir i arwain yr Ambiwlans at y claf.

### Cynllun Safle

Lluniwch gynllun safle (ar raddfa addas) gan nodi safle yr holl atyniadau a chyfleusterau a fwriedir. Cynlluniwch a dynodwch y fynedfa a’r allanfa, llwybrau cylchredeg, mynediad i gerbydau a llwybrau gwagu mewn argyfwng. Byddai angen hefyd rhoi cynllun ar raddfa yn eich cynllun diogelwch fel ei bod yn hawdd dynodi’r holl ardaloedd allweddol. Hefyd nodwch ble mae’r parthau gwagu a llwybrau mynediad a mynd allan mewn argyfwng ar y map. Yna dylai’r map fod yr unig gynllun ar gyfer asiantaethau / trefnwyr i weithio oddi arno a dylai’r fersiwn gael ei reoli i sicrhau na fydd unrhyw newidiadau yn cael eu gwneud heb i bawb fod yn gwybod am hynny.

## Strwythurau Dros Dro

Bydd llawer o ddigwyddiadau yn gofyn am strwythurau dros dro fel llwyfannau, pebyll, pebyll mawr, stondinau a rhwystrau. Penderfynwch o ble y byddwch yn cael yr offer yma, pwy fydd yn ei godi a pha wiriadau diogelwch fydd yn angenrheidiol. Dylai lleoliad unrhyw strwythurau o'r fath gael ei ddynodi ar y cynllun safle. Ystyriwch a fydd angen rhwystrau i ddiogelu'r cyhoedd rhag peryglon penodol fel peiriannau sy'n symud, barbeciw, cerbydau, generaduron, newidiadau o ran uchder ac ati. Mewn rhai achosion, bydd raid i rwystrau fod â phwysedd diogelwch wedi ei nodi gan ddibynnu ar y nifer o bobl sy'n debygol o fod yn bresennol. Dim ond gan gyflenwyr profiadol y dylid cael strwythurau dros dro. Mae'r safonau o ran goleuo, golau argyfwng, mynediad/allanfa yn parhau'r un fath ar gyfer strwythurau dros dro a pharhaol. Am ragor o gyngor gallwch gysylltu â thîm Rheoli Adeiladu'r Awdurdod ar 01495 311556.

## Rheoli Tyrfa

Bydd y math o ddigwyddiad a'r niferoedd fydd yno yn pennu'r camau angenrheidiol. Bydd raid ystyried y nifer o rwystrau a'u lleoliad, a darparu system annerch y cyhoedd er mwyn gallu cyfathrebu yn y digwyddiad petai argyfwng, a lle diogel i bobl ymgasglu os bydd angen gwagu'r safle.
Rhaid pennu'r uchafswm o bobl y gall y digwyddiad eu cynnwys yn ddiogel. Gall hyn gael ei ostwng yn ddibynnol ar y gweithgareddau sy'n cael eu cynllunio. Efallai y bydd raid cyfrif y nifer o bobl sydd yn y digwyddiad i atal gorlenwi. Cofiwch y gall un atyniad penodol ddenu nifer fawr o

## Stiwardiaid

Rhaid i stiwardiaid mewn digwyddiadau mwy gael eu briffio yn llawn ar bob agwedd o’r digwyddiad, gan gynnwys rheoli tyrfa a threfniadau argyfwng. Dylid rhoi cyfarwyddiadau ysgrifenedig, cynlluniau safle a rhestrau gwirio iddynt. Dylai stiwardiaid wisgo dillad amlwg, hawdd eu hadnabod. Dylent fedru cyfathrebu yn effeithiol â’i gilydd, eu goruchwyliwr, yr unigolyn sy’n gyfrifol am iechyd a diogelwch, a rheolwr y digwyddiad. Ystyriwch ddefnyddio radio, ffonau ac uchelseinyddion os bydd angen.

Dylai pob stiward gael ei hyfforddi yn briodol a bod yn gymwys, gan y bydd angen iddynt fod yn wyliadwrus am beryglon a all ddatblygu yn ystod y digwyddiad. Efallai y bydd angen iddynt hefyd arwain cerbydau, clirio allanfeydd argyfwng, a datrys unrhyw ddigwyddiadau. Dylid rhoi hyfforddiant penodol ar gyfer cymorth cyntaf sylfaenol ac ymladd tân. Efallai y bydd ar stiwardiaid angen dillad diogelu personol fel hetiau, esgidiau, menig neu gotiau. Ar gyfer digwyddiadau nos, efallai y bydd angen rhoi fflachlampau iddynt. Mewn digwyddiadau trwy’r dydd, bydd angen sefydlu rota dyletswyddau. Dim ond gweithredu ar gyfarwyddyd trefnwyr y digwyddiad y dylai’r stiwardiaid, neu’r heddlu os bydd angen. Ond dim ond yr Heddlu a stirwardiad a achredwyd sydd â’r awdurdod i reoli traffig ar ffordd gyhoeddus. Am ragor o gyngor o ran stiwardiaid a achredwyd gallwch gysylltu â Heddlu Gwent

## Diogelwch

Gan ddibynnu ar natur y digwyddiad, efallai y bydd angen trefniadau diogelwch penodol, gan gynnwys trefniadau ar gyfer diogelu eiddo dros nos. Dylid darparu ar gyfer cadw eiddo coll yn ddiogel. Dylid cynllunio’r casglu arian i sicrhau bod y swm yn cael ei gadw cyn lleied â phosibl mewn mannau casglu a bod yr arian yn cael ei symud i ardal ddiogel. Yn dilyn eich asesiad risg,

Bydd angen cyfleusterau parcio ceir yn y rhan fwyaf o ddigwyddiadau a bydd angen stiwardiaid ar y rhain. Ystyriwch ble y dylai cyfleusterau o’r fath gael eu rhoi a sut y dylid eu rheoli. Dylid trafod rheoli traffig ar y safle a thu allan iddo gyda’r Awdurdod Priffyrdd Lleol ac Adran Rheoli Traffig Heddlu Gwent. Dylid gosod arwyddion a chyfarwyddiadau digonol mewn mannau amlwg ar y ffyrdd at y mynedfeydd. Bydd yr Awdurdod Priffyrdd yn rhoi gwybod pa arwyddion a lleoliadau sy’n dderbyniol.

Efallai y bydd unrhyw ddigwyddiadau sy’n gofyn am gau ffyrdd neu ddargyfeirio angen

## Cynllun Digwyddiad

Dylech roi manylion am y canlynol yn eich cynllun digwyddiad:
Amlinelliad o'r digwyddiad
Tystiolaeth o ddynodi peryglon ac asesu risg
Strwythur rheoli a rolau
Darpariaeth ar gyfer rheolaeth strategol ar ddigwyddiad
Darpariaeth ar gyfer cysylltu â'r gwasanaethau argyfwng
Cynllun safle gyda mannau cyfarfod a'r adnoddau allweddol wedi eu dynodi
Manylion y sefydliadau allweddol a'u rolau
Rhestr o rifau ffôn personél allweddol
Cyfeiriad at ddeddfwriaeth neu gyfarwyddyd perthnasol

## Diogelwch y Digwyddiad

A yw'r personél allweddol wedi cael eu dynodi e.e. Trefnydd y Digwyddiad, Swyddog Diogelwch, Prif Stiward?
A gafwyd y trwyddedau a'r caniatâd angenrheidiol?
A yw'r safle yn addas i'r digwyddiad? A yw cynllun y safle yn gywir?
A wnaed asesiad risg?
A yw'r holl gamau iechyd a diogelwch angenrheidiol yn eu lle?
A ydych wedi derbyn asesiad risg neu ddogfennau yswiriant gan unrhyw gontractwyr?
A ydych yn gwybod sut dyrfa fydd yno a'r nifer fydd yn bresennol bob dydd?
A yw'r mynedfeydd a'r allanfeydd yn cael eu rheoli ac a oes arwyddion addas?
A yw'r holl stiwardiaid wedi eu hyfforddi, eu briffio ac yn hawdd eu hadnabod?
A oes gennych system gyfathrebu ddibynadwy petai argyfwng yn digwydd?
A oes gennych fan rheoli hawdd ei adnabod?
A oes gennych ddigon o gamau rheoli tyrfa yn eu lle?
A oes gennych gynllun argyfwng wedi ei gytuno gyda'r gwasanaethau argyfwng?
A oes gennych gamau diogelwch tân a chymorth cyntaf effeithiol yn eu lle?
A oes gennych yswiriant addas ar gyfer eich digwyddiad?
A oes gan y sefydliadau perthnasol (gan gynnwys y Grŵp Cynghori Diogelwch) y cynllun digwyddiad mwyaf cyfredol?

## Digwyddiadau ar y Briffordd

Yn ychwanegol at yr eitemau diogelwch cyffredinol uchod, dylai'r materion canlynol gael sylw wrth drefnu digwyddiadau ar y briffordd:

Amseru : Mae'n well i'r digwyddiad ddigwydd yn ystod golau dydd. Os na, yna bydd angen goleuo'r mynedfeydd.

Cynllunio eich llwybr : Pryd bynnag y bydd hynny'n bosibl dylai eich digwyddiad gael ei gynnal mewn parc, cae chwarae neu ardal ymhell o'r ffordd. Peidiwch â defnyddio ffyrdd heb lwybrau neu ymylon priodol, neu lle mae gwaith ffordd gan y gallant fod yn beryglus. Ceisiwch gychwyn a gorffen eich digwyddiad oddi ar y ffordd. Gall cychwyn criw mawr gyda'i gilydd fod yn beryglus ac fe ddylid eu cychwyn bob yn ychydig. Dylai'r rhai sy'n cymryd rhan ddefnyddio mannau croesi addas, a mynd ar y briffordd a'i gadael heb achosi anghyfleustra na rhwystr i ddefnyddwyr y ffordd. Dilynwch Reolau'r Ffordd Fawr. Mae gan yr heddlu hawl i atal traffig, a hefyd gall stiwardiad wedi'u hachredu wneud y gwaith hwn.

Arwyddion : Dylai unrhyw arwyddion ffordd gael eu cymeradwyo gan yr Awdurdod Priffyrdd.

Lles: Dylid cael digon o stiwardiaid i oruchwylio'r llwybr cyfan. Dylai'r stiwardiaid fod yn oedolion cyfrifol, deiliaid trwydded yrru os yn bosibl, a dylai fod ganddynt ddillad sy'n adlewyrchu sy'n addas ar gyfer y dyletswyddau i'w cyflawni, bydd hyn, wrth gynghori unigolion neu yrwyr am lwybrau dewisedig yn cynnwys siacedi sy'n adlewyrchu fel y bydd unrhyw arwyddion â llaw yn hawdd eu gweld. Ni all stiwardiaid weithredu ar unrhyw briffordd sydd ar agor i'r cyhoedd.

Beth i'w wneud os aiff pethau o chwith

## ATODIAD A – CYSYLLTIADAU DEFNYDDIOL

| Sefydliad / Adran | Rhifau Ffôn | Cyfeiriad E-bost |
|---|---|---|
| Heddlu Gwent | 01633 838111 | |
| Tîm Cynllunio Argyfwng Heddlu Gwent – Bob Witherall | 01633 642420 | Bob.Witherall@gwent.pnn.police.uk |
| Rheoli Traffig yr Heddlu – Dave Matthews | 01633 642276 | Dave.matthews@gwent.pnn.police.uk |
| Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru | 01443 232000 | |
| Ystafell Reoli Ambiwlans Cymru | 01633 626262 | |
| Iechyd yr Amgylchedd | 01495 357813 | Environmental.health@blaenau-gwent.gov.uk |
| Priffyrdd / Gwaith Stryd – Nicola Davies / Ian Cole | 01495 311556 | Nicola.davies@blaenau-gwent.gov,.uk<br>Ian.Cole@blaenau-gwent.gov.uk |
| Argyfyngau Sifil – Deanne Griffiths / Steph Summers | 01495 355568<br>07976124393<br>01495 3555081<br>07814850683 | Deanne.Griffiths@blaenau-gwent.gov.uk<br>Steph.Summers@blaenau-gwent.gov.uk |
| Rheoli Adeiladu | 01495 311556 | buildingcontrol@blaenau-gwent.gov.uk |
| Trwyddedu | 01495 311556 | licensing@blaenau-gwent.gov.uk |
| C2BG | 01495 311556 | info@blaenau-gwent.gov.uk |
| Aneurin Leisure | 01495 355606 | Anthony.hughes@blaenau-gwent.gov.uk |
| HSE | 0300 003 1747 | |

Bwriadwyd y ddogfen hon i rannu cyfarwyddyd cyffredinol ac arfer da. Ni all yr awdur na'r cyfranwyr dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am wallau neu wybodaeth a adawyd allan.

<u>ATODIAD B</u>

Rhestr Wirio Cynllunio Digwyddiad

| Gweithred | Wedi ei wneud | Erbyn pryd | Gan bwy |
|---|---|---|---|
| Sefydlu pwyllgor | | | |
| Penderfynu ar ddyddiad y digwyddiad | | | |
| Penderfynu ar raglen fras y digwyddiad | | | |
| Archebu’r lleoliad addas | | | |

Hysbysu’r Grŵp Cynghori Diogelwch

| | | | |
|---|---|---|---|
| Trefnu system annerch/gyfathrebu | | | |

- Darparu cymorth cyntaf
- Darparu cyfleusterau lles a glanweithiol addas
- Tân, diogelwch a chasglu arian
- Arddangoswyr ac arddangosfeydd
- Atyniadau a difyrion
- Strwythurau
- Rheoli gwastraff.

## Asesu'r risg

Rhaid i raddfa'r risg sy'n deillio o'r peryglon a ddynodwyd gael ei werthuso. Y risg yw'r tebygolrwydd y bydd niwed yn deillio o'r perygl. Dylech restru'r camau rheoli sy'n bodoli ac asesu a oes angen rhagor. Dylid ystyried y canlynol:

- Unrhyw wybodaeth, cyfarwyddyd a hyfforddiant parthed y digwyddiad a'r gweithgareddau sy'n rhan ohono
- Cydymffurfio â safonau deddfwriaethol, codau arfer gorau a Safonau Prydeinig
- A yw'r camau rheoli presennol wedi lleihau'r risg cyn belled ag sy'n rhesymol o ymarferol.

Dosbarthwch y risg yn fawr, canolig a bach. Mae'r enghreifftiau o risgiau yn y categorïau hyn fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Mawr | Offer llawn gwynt heb eu hangori yn cael eu defnyddio mewn tywydd anffafriol |
| Canolig | Arddangos anifeiliaid mewn ardal wedi ei chau allan â rhaff |
| Bach | Perfformiwr meim yn perfformio ymhlith y dyrfa |

Ar gyfer pob perygl, barnwch y risg ar sail y camau rheoli sydd yn eu lle. Os yw'r niwed yn debygol iawn mae'n sgorio '5' dan debygolrwydd, os yw'n annhebygol mae'n sgorio 1. Bydd difrifoldeb y niwed yn amrywio o anaf pen difrifol (mawr) i glais (bychan). Os cymerwch y ffactor tebygolrwydd a'i luosi â'r ffactor difrifoldeb byddwch yn cael ffactor risg h.y. tebygolrwydd x difrifoldeb = risg.

| Gwerthuso Risg | Difrifoldeb: | 5 – Mawr ( ) | 3 – Difrifol ( ) | 1 – Bychan ( ) |
|---|---|---|---|---|
| | Tebygolrwydd | 5 – Uchel ( ) | 3 – Canolig ( ) | 1 – Isel ( ) |

Sgôr Cyfradd Blaenoriaeth

Difrifoldeb X Tebygolrwydd = Cyfradd y Risg

Uchel

( ) ( ) ( )

Cg Tw ( 06933.6537 -1.15133.d4deb58d).5( )]TJ 0 -1.5

## Rheoli risg

Ar gyfer pob risg ystyriwch a ellir ei dileu yn llwyr neu beidio. Os na ellir, yna penderfynwch beth sy'n rhaid ei wneud i'w lleihau i lefel dderbyniol. Nid yw risgiau sydd â sgôr isel yn gofyn am gymaint o ymyrraeth, ond rhaid ystyried y rhai sydd â sgôr uchel yn ofalus. Ystyriwch y canlynol:

Chwiliwch am ddewis gwahanol i'r gweithgaredd/peiriant ac ati
Atal mynediad at y perygl
Lleihau'r mynediad at y perygl
Defnyddio offer diogelu personol.

## Cofnodi'r asesiad risg

Defnyddiwch ffurflen asesu risg i gofnodi'r holl beryglon, natur a graddfa'r risgiau, a'r camau gofynnol i'w rheoli. Cadwch y ffurflen i gyfeirio ati a'i defnyddio yn y dyfodol. Gallwch hefyd gyfeirio at ddogfennau eraill all fod gennych, fel llawlyfrau a chodau ymarfer.

## Adolygu a diwygio

Os bydd natur y risgiau yn newid yn ystod cyfnod cynllunio'r digwyddiad, bydd angen adolygu a diweddaru'r asesiadau risg.

## Gwybodaeth

# Asesiad Risg

| | |
|---|---|
| Gwnaed yr Asesiad Gan: | |
| Gweithgaredd/Digwyddiad: | |

| PERYGLON A DDYNODWYD | Asesiad Risg | | |
|---|---|---|---|
| | Mawr | Canolig | Bach |
| Ewch ymlaen ar daflen ar wahân os bydd angen | | | |

| Unigolion Mewn Perygl |
|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gweithwyr | | Aelodau o'r Cyhoedd | |
| Contractwyr | | Eraill | |

| Camau Rheoli sydd Eisoes yn Weithredol |
|---|
| |
| Unrhyw Gamau Rheoli Ychwanegol Ataliol neu Reoli yn Ofynnol? |
| |
| Angen Monitro ac Adolygu? |
| |
| Gwybodaeth i'w Rhoi i Weithwyr |
| |

| | |
|---|---|
| Llofnodwyd: | |
| Dyddiad: | |

ATODIAD D

| | Wedi eu gwirio ac yn foddhaol? | | |
|---|---|---|---|
| | Do | Na | D/G |
| A oes toiledau wedi eu darparu lle mae eu hangen? | | | |
| A oes canolfan reoli yn ei lle a'r system sain yn gweithio? | | | |
| A oes digon o finiau sbwriel yn eu lle? | | | |

Yn ystod y digwyddiad

| | Wedi eu gwirio ac yn foddhaol? | | |
|---|---|---|---|
| | Do | Na | D/G |
| Mynedfeydd/allanfeydd yn glir? | | | |
| A all cerbydau argyfwng gael mynediad? | | | |
| Yr holl staff a'r stiwardiaid yn eu lle? | | | |
| A yw cerddwyr yn cael eu gwahanu oddi wrth gerbydau? | | | |
| A oes trefniadau diogelwch yn eu lle? | | | |
| A osodwyd arwyddion addas? | | | |
| Cyflwr y safle yn addas? | | | |
| A oes golau wedi ei osod lle mae ei angen? | | | |
| A yw'r safle yn glir o berygl baglu e.e. ceblau, tyllau? | | | |
| A yw'r holl strwythurau yn dal yn ddiogel? | | | |
| A yw'r gosodiadau mewn cyflwr da e.e. seddi, ffensys, arwyddion ac ati? | | | |
| A yw'r tywydd wedi creu peryglon newydd y dylid ymdrin â nhw? | | | |
| A yw'r holl weithgareddau ac atyniadau yn dal yn ddiogel? | | | |
| A yw gweithgareddau a all fod yn beryglus wedi eu gwahanu yn ôl y gofyn? | | | |
| A oes unrhyw beryglon nad oedd wedi cael eu rhagweld wedi eu dynodi? | | | |
| A yw'r offer ymladd tân yn ei le? | | | |
| A yw'r cyflenwad/offer trydanol yn dal yn ddiogel? | | | |
| A yw'r toiledau yn lân a'r cyfleusterau yn dal ar gael? | | | |
| A yw'r cyfleusterau cymorth cyntaf yn dal yn eu lle? | | | |
| A yw'r system sain yn gweithio? | | | |
| A oes angen newid/gwagu'r biniau sbwriel? | | | |

Os byddwch wedi rhoi Na yn ateb i unrhyw un o’r cwestiynau nodwch y diffygion a’r camau a gymerwyd i gywiro hynny:

| Diffyg | Camau i Gywiro |
|---|---|
| | |
| | |
| | |
| | |

| | |
|---|---|
| Enw’r unigolyn sy’n gwirio: | |
| Llofnodwyd: | |
| Amser a dyddiad: | |

Ar ôl y digwyddiad

| Wedi eu gwirio ac yn foddhaol? | | |
|---|---|---|
| Do | Na | D/G |

# <u>ATODIAD E</u>

Ffurflen Adroddiad am Unrhyw Anaf/Digwyddiad

Dim ond trefnydd y digwyddiad neu ei gynrychiolydd ddylai lenwi'r ffurflen hon, a gall eich

# Grŵp Cynghori Diogelwch Digwyddiadau

# Blaenau Gwent

## Ffurflen Trafod Digwyddiad

Yn awr bod eich digwyddiad wedi bod, rydym am eich helpu i asesu sut yr aeth pethau, ac a oes unrhyw ffyrdd y gallech chi ei wella.

Dylai'r ffurflen hon gael ei llenwi (mewn PRIFLYTHRENNAU) gan yr unigolyn oedd yn gyfrifol am gynllunio'r digwyddiad.

Dylid ei chyflwyno ac, os bydd angen, bydd yn cael ei thrafod yn nghyfarfod

FFURFLEN HYSBYSU DIGWYDDIADAU

# Diogelwch a Lles mewn Digwyddiadau

## Adran 1 - TROSOLWG O'R DIGWYDDIAD

| | |
|---|---|
| Enw'r digwyddiad: | |
| Math o Ddigwyddiad (e.e. taith gerdded, diwrnod o hwyl): | |
| Lleoliad y digwyddiad: | |
| Dyddiad y digwyddiad: | |
| Amser agor y digwyddiad: | O _____:_____ hyd _____:_____ |
| Dyddiad ac amser cyrraedd y safle: | |
| Dyddiad ac amser gadael y safle: | |
| Y nifer a ragwelir fydd yn dod i'r digwyddiad bob dydd: | See below |

| | |
|---|---|
| <50 | |
| 50 – 99 | |
| 100 – 199 | |
| 200 -499 | |
| 500 – 999 | |
| 1000 – 2000 | |
| >2000 | |

Os bydd mwy na 2000, nodwch y nifer a ragwelir bob dydd:

________________________________

Uchafswm y nifer o bobl a ddisgwylir ar y safle ar unrhyw amser penodol:

________________________________

Rhagor o ffurflenni a gwybodaeth ar gael yn: www.blaenau-gwent.gov.uk

***Os na fydd unrhyw adran yn berthnasol i’ch digwyddiad, ysgrifennwch Amh ac ewch i’r adran nesaf.***

## Adran 4 - ARLWYO

Os bydd bwyd poeth/oer neu ddiodydd yn cael eu cyflenwi fel rhan o'ch digwyddiad, rhowch fanylion:

A fydd y bwyd yn: boeth / oer / y ddau (rhowch gylch am yr un perthnasol)

Yr amseroedd y bydd bwyd ar gael: rhwng _____:_____ a ______:_____

A yw'r holl fasnachwyr bwyd/diod wedi eu cofrestru gyda'u hawdurdod cartref (lleol) yn ôl gofynion y rheoliadau hylendid bwyd?

A fydd gan fasnachwyr bwyd fynediad at gyflenwad d ŵr yfadwy (glân, heb ei lygru ac yn addas i'w yfed) i hwyluso golchi dwylo, golchi offer a pharatoi bwyd?

(Rhowch restr o'r holl fasnachwyr gyda manylion cyswllt gan gynnwys cyfeiriadau anfon ymlaen gyda'r ffurflen gais hon)

| | | |
|---|---|---|
| A fydd rhywfaint o'r bwyd ar werth yn ystod y digwyddiad? | BYDD | NA |

## Adran 5 - YSWIRIANT ATEBOLRWYDD CYHOE DDUS (hanfodol ar gyfer pob digwyddiad):

| | |
|---|---|
| Enw'r cwmni yswiriant | |
| Rhif y polisi | |
| Swm yr yswiriant | £ |

## Adran 6 - STIWARDIAID

Nifer o stiwardiaid

| | |
|---|---|
| Ardal o flaen y llwyfan (os oes llwyfan) | |
| Mynedfa neu allanfa | |
| Parcio cerbydau | |
| Patrolau | |
| Arall | |
| Cyfanswm | |

| | |
|---|---|
| Enw a chyfeiriad y cwmni diogelwch (os yn berthnasol) | |
| Enw cyswllt a rhif ffôn | |
| Sut y bydd unrhyw argyfwng yn cael ei gyfleu i'r stiwardiaid? | |

| Adran 7 - CYFATHREBIADAU | | |
|---|---|---|
| A fydd radio yn cael ei ddefnyddio? | BYDD | NA |
| A fydd System Annerch y Cyhoedd? | BYDD | NA |
| A fydd yn bosibl ei dawelu mewn argyfwng? | BYDD | NA |

| Adran 8 - STRWYTHURAU DROS DRO ***e.e. Llwyfan, llwyfannau dawnsio neu babelli mawr*** | | |
|---|---|---|
| A fydd strwythurau dros dro yn cael eu codi? | BYDD | NA |
| Os bydd, rhowch fanylion y math, maint a'r nifer, a rhoi lluniau strwythurol manwl gan y Cwmni Cyflenwi/Adeiladu pan fydd yn addas: | | |

| Adran 9 - CYFLEUSTERAU LLES | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfleusterau glanweithiol - *cofnodwch y nifer o bob un fydd yn cael eu darparu:* | | | |
| Gwryw | Nifer Toiledau | Nifer troethfeydd | Nifer y basnau golchi dwylo |
| Benyw | Nifer Toiledau | | Nifer y basnau golchi dwylo |
| Anabl | Nifer Toiledau | | Nifer y basnau golchi dwylo |
| A fydd d Ŵr yfed ar gael? | | BYDD | NA |

| Adran 10 - SYSTEMAU TRYDANOL | | |
|---|---|---|
| Rhaid i'r system drydanol ar gyfer y digwyddiad gael ei gosod gan unigolyn cymwys. Rhowch fanylion isod am yr unigolyn fydd yn gosod y system: | | |
| A fydd golau argyfwng yn cael ei ddarparu? | BYDD | NA |
| A fydd generaduron a/neu newidyddion yn cael eu defnyddio? | BYDD | NA |
| A fydd RCD yn cael eu defnyddio? | BYDD | NA |

| Adran 11 - EFFEITHIAU ARBENNIG – ***A fydd unrhyw un o'r canlynol yn cael eu defnyddio yn ystod y digwyddiad?*** |
|---|
| *Rhowch gylch:* Goleuadau laser/goleuadau strôb/Golau uwchfioled/Pyrotechneg/Mwg/Peiriannau Mwg<br>Arall (nodwch): |

| Adran 12 - CYMORTH CYNTAF – rhowch fanylion y trefniadau ar gyfer y canlynol: | |
|---|---|
| Cymorth Cyntaf | |
| Man Cymorth Cyntaf | |
| Ambiwlansiau | |
| Parafeddygon | |
| Enw’r sefydliad<br>sy’n darparu’r cyfleusterau yma | |

| Adran 13 – DIOGELWCH TÂN | | |
|---|---|---|
| A ydych wedi paratoi asesiad risg tân ar gyfer y digwyddiad? | DO | NA |
| Mae rhagor o wybodaeth am ddiogelwch tân ar gael yn:<br>http://www.communities.gov.uk/publications/fire/firesafetyassessment and<br>http://www.communities.gov.uk/documents/fire/pdf/158379.pdf | | |

| Adran 14 - PRIFFYRDD | | |
|---|---|---|
| A yw’r digwyddiad yn cael ei gynnal ar Ffordd Gyhoeddus/tir y Cyngor? | YDY | NA |
| Enwch y Strydoedd dan sylw: | | |
| A fydd angen cau’r briffordd (llwybr cerbydau a/neu lwybr troed) dros dro? | BYDD | NA |
| A fydd eich digwyddiad yn cael effaith ar lif arferol traffig? | BYDD | NA |
| Rhowch fanylion unrhyw drefniadau parcio ceir a’r nifer a amcangyfrifwyd o gerbydau fydd yn dod bob dydd: | | |

Os bydd eich digwyddiad ynihh ar l.00154l9:-5.3f trffg yho c ngu15.3( nrhae)15.3( li trff)g Edig agra-5.6(:m
www.ewpottwu.ki / ent-643esaf e4:-5.yf

| Adran 15 – CYNLLUNIO ARGYFWNG | | |
|---|---|---|
| | OES/YDY | NA |
| A oes cynllun argyfwng wedi cael ei sefydlu? | | |
| A yw eich cynllun argyfwng yn cynnwys trefniadau ar gyfer: | | |
| Dynodi'r personél allweddol fydd yn gwneud penderfyniadau | | |
| Atal y digwyddiad | | |
| Dynodi llwybrau argyfwng | | |
| Ardaloedd dal: perfformwyr/cynulleidfa | | |
| Negeseuon 'camu yn ôl' a 'rhybudd' trwy god | | |
| Sgript y cyhoeddiadau annerch y cyhoedd | | |
| Mannau cyfarfod ar gyfer gwasanaethau argyfwng | | |
| Mannau llwytho ambiwlansiau ac ardal brysbennu | | |
| Llwybrau traffig diogel i'r ysbytai | | |